



**Heneb**

## **Polisi Gwybodaeth CAH Heneb**

### **Cwmpas y Wybodaeth**

Mae'r CAH yn cynnwys gwybodaeth am ystod eang o safleoedd, henebion, adeiladau, arteffactau a thirweddau o ddiddordeb archaeolegol a hanesyddol sy'n dyddio o'r cyfnod y dechreuodd pobl fyw yng Nghymru hyd at yr oes bresennol. Nid yw'n ffafrio safleoedd sy'n perthyn naill ai i'r tir neu i'r môr ac nid yw'n eithrio unrhyw fath o gyfnod neu safle yn fwriadol. Mae manylion yr asedau mwyaf a lleiaf adnabyddus wedi'u cofnodi, yn ogystal â gwybodaeth a gafwyd drwy weithgareddau ymchwilio archaeolegol yng Nghymru.

Mae'r wybodaeth a geir yn y CAH ar hyn o bryd wedi datblygu o ganlyniad i'r nifer o brosiectau thematig a'r rhai ar safleoedd penodol a gynhaliwyd yn yr ardal gan nifer o gyrff amrywiol at ddibenion amrywiol. O'r herwydd, mae'n adnodd deinamig sy'n esblygu'n barhaus gan ddatblygu ac ehangu gyda phob darn newydd o wybodaeth.

Bwriad y CAH ydy darparu gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn ag archaeoleg a hanes Cymru, naill ai drwy gofnodion a grëwyd gan Heneb neu drwy rai a grëwyd gan sefydliadau eraill sydd ar gael i Heneb.

### **Cyrhaeddiad daearyddol**

Mae'r CAH yn cwmpasu Cymru gyfan ond er hwylustod ei reoli ac i hwyluso mynediad lleol i'r cofnod, mae wedi'i rannu'n bedwar rhanbarth gweinyddol.

Mae rhanbarth Clwyd-Powys yn cwmpasu pedwar awdurdod unedol - Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a Phowys. Mae rhanbarth Clwyd-Powys yn cynnwys rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd.

Mae rhanbarth Dyfed yn cwmpasu tri awdurdod unedol - Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae rhanbarth Dyfed yn cynnwys rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd..

Mae rhanbarth Morgannwg-Gwent yn cwmpasu 12 awdurdod unedol - Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen a Bro Morgannwg. Mae rhanbarth Morgannwg yn cynnwys rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd.

Mae rhanbarth Gwynedd yn cwmpasu tri awdurdod unedol – Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Mae rhanbarth Gwynedd hefyd yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri.

## Cynnwys y Wybodaeth

- Cronfeydd data sy'n cadw manylion asedau hanesyddol (cofnodion craidd) a digwyddiadau (cofnodion digwyddiadau). Gellir gweld y rhain drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ond fel arfer, gwneir hynny mewn system GIS a/neu drwy gatalogau o safleoedd wedi'u lawrlwytho ar ffurf pdf.
- Caiff cynnwys statudol Cymru-gyfan y CAH ei rannu trwy wefan Archwilio ac mae'n cynnwys: data am safleoedd a thirweddau dynodedig a gynhelir gan Cadw; Ardaloedd Cadwraeth a gynhelir gan awdurdodau unedol; data morol, safleoedd brwydrau ac enwau lleoedd a gynhelir gan CBHC; ardaloedd o gymeriad a gofnodir gan Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Heneb; manylion gweithgareddau ymchwilio a gaiff eu casglu a'u cynnal gan Heneb, a; manylion unrhyw asedau hanesyddol eraill, gan gynnwys Rhestrau Lleol a ddarperir gan awdurdodau lleol.
- Mae'r wybodaeth ddigidol a geir yn y CAH a'r casgliadau sy'n ei gefnogi wedi'i chasglu o ffynonellau amrywiol gan gynnwys cofnodion prosiectau mewnol ac allanol, a gwybodaeth a ddarperir yn rheolaidd gan sefydliadau Cymreig eraill fel rhan o'r Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion sy'n Ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru.
- Ymhlith yr elfennau data digidol eraill a geir yn y casgliadau sy'n cefnogi'r cofnod, mae dynodiadau ardaloedd megis Ardaloedd Cadwraeth ac AHNEau, SoDdGAu ac ati, yn ogystal â ffiniau Parciau Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Yn ychwanegol at yr adnoddau digidol, ceir cofnodion papur sy'n cynnwys adroddiadau llenyddiaeth lwyd o waith prosiect masnachol a gwaith a gefnogwyd gan grantiau gan dimau archaeolegol mewnol ac allanol sydd eto i'w digideiddio. Gall fod ffeiliau Gwybodaeth Bellach ar gael hefyd, sy'n cynnwys gohebiaeth, ffurflenni ymweliadau safle, a dogfennau perthnasol eraill.
- Mae llyfrgell gyfeirio'r CAH yn cynnwys nifer o gyfnodolion lleol, cenedlaethol a thematig yn ogystal â thestunau perthnasol a chyhoeddiadau eraill. Mae cynnwys y llyfrgelloedd cyfeirio hyn yn amrywio o un rhanbarth i'r llall, felly holwch yn y swyddfa ranbarthol berthnasol os byddwch yn awyddus i weld y ffynonellau hyn.
- Ceir casgliadau helaeth o sleidiau a ffotograffau (digidol a ffilm) i gyd-fynd â data ysgrifenedig y CAH. Mae'r delweddau'n cynnwys ffotograffau o'r awyr a ffotograffau manwl o'r ddaear.
- Mae archifau sy'n gysylltiedig â phrosiectau blaenorol a gynhaliwyd gan Heneb yn ategu adroddiadau'r prosiectau. Mae cynnwys y llyfrgelloedd cyfeirio hyn yn amrywio o un rhanbarth i'r llall, felly holwch yn y swyddfa ranbarthol berthnasol os byddwch yn awyddus i weld y ffynonellau hyn.

## Y grwpiau o ddefnyddwyr proffesiynol a chyhoeddus y mae'n bwriadu eu gwasanaethu.

Mae'r CAH yn darparu gwybodaeth, ac yn sail i gyngor a ddarperir gan Heneb i nifer o gyrff ac unigolion, gan gynnwys:

- Llywodraeth Genedlaethol, gan gynnwys Cadw
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Llywodraeth Leol
- Archaeolegwyr Curadurol (h.y. archaeolegwyr rheoli treftadaeth a chynllunio)
- Contractwyr Archaeolegol

- Ymgynghorwyr
- Sefydliadau addysg
- Ymchwilwyr academiaidd
- Myfyrwyr Israddedig, Ôl-raddedig, ac addysg uwch
- Cymdeithasau Hanes
- Y cyhoedd yn gyffredinol
- Staff Heneb

### **Sut i gyrchu'r Cofnod**

Er mwyn cyrchu gwybodaeth o'r CAH at ddibenion masnachol, dylid cyflwyno ffurflen ymholiad CAH yn y lle cyntaf a gwneir hynny yn unol â'r Amodau Mynediad at ddata CAH Cymru. Mae'r ffurflen honno ar gael [yma](#). Gellir trefnu mynediad at wybodaeth fwy manwl yn ddiweddarach drwy benodiad os bydd angen.

Mae mynediad AM DDIM i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i'r rhai sy'n ymgymryd ag ymchwil bersonol neu astudiaethau academiaidd. Mae aelodau staff ar gael i gynorthwyo gydag ymholiadau ac rydym yn croesawu ymholiadau cychwynnol gan y cyhoedd naill ai dros y ffôn neu drwy lythyr neu e-bost. Gofynnir i bawb sy'n ymholi gwblhau'r Ffurflen gais am wybodaeth o'r CAH a darllen yr Amodau Mynediad at ddata CAH Cymru; gellir gweld a chwblhau'r rhain [yma](#). Gellir cael mynediad at y CAH statudol at ddefnydd anfasnachol drwy wefan [Archwilio](#).

### **Oriau agor a Manylion cysylltu**

Ar gyfer pob ymholiad e-bost i CAH Heneb:

E-bost: [her@heneb.org.uk](mailto:her@heneb.org.uk)

Heneb: Archaeoleg Clwyd-Powys

Mae'r CAH ar agor i ymwelwyr yn ddyddiol (drwy benodiad yn unig) o ddydd Llun i ddydd Gwener 10.00am – 4.00pm.

10 am i 4 pm.

Y Swyddfeydd,

Coed-y-Dinas

Y Trallwng

SY21 8RP

Ffôn: 07956585023

Google Maps - <https://maps.app.goo.gl/HkXcJvPoaQCDyu8N7>

Heneb: Archaeoleg Dyfed

Mae'r CAH ar agor i ymwelwyr yn ddyddiol (drwy benodiad yn unig) o ddydd Llun i ddydd Gwener 10.00am – 4.00pm.

Tŷ Cornel

Stryd Caerfyrddin

Llandeilo

Sir Gaerfyrddin

SA19 6AE

Ffôn: 01558 823121

Google Maps - <https://maps.app.goo.gl/6sdweBvYc4vUz5eL7>

Heneb: Archaeoleg Morgannwg-Gwent

Mae'r CAH ar agor i ymwelwyr yn ddyddiol (drwy benodiad yn unig) o ddydd Llun i ddydd Gwener  
10.00am–1.00pm a 2.00pm – 4.00pm.

Canolfan Fusnes SA12

Ystad Ddiwydiannol Seaway Parade

Baglan

Port Talbot

SA12 7BR

Ffôn 01792 655208

Google Maps - <https://maps.app.goo.gl/qgZPscwey7JtZs9c6>

Heneb: Archaeoleg Gwynedd

Mae'r CAH ar agor i ymwelwyr yn ddyddiol (drwy benodiad yn unig) o ddydd Llun i ddydd Gwener  
10.00am – 4.30pm

Craig Beuno

Ffordd Garth

Bangor

Gwynedd

LL57 2RT

Ffôn: 01248 352535

Google Maps - <https://maps.app.goo.gl/GLPcvysSSETddKAY7>